(HCC 915)

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd 11.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Huw Davies, Gareth Wynn Davies, John Davies, Rachael Madeley Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander a Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 7, 8, 9
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)
Sam Crutchley (SFC Consulting Cyf) – Eitem 11d

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Sam Crutchley a oedd yno i roi cyflwyniad ar Eitem 11d yn absenoldeb Rheolwr Datblygu'r Farchnad a oedd ar daith fasnach yn Siapan.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

12 Medi 2019 – Cyfarfu'r Cadeirydd â John Cross (Cyn-gadeirydd Cig Eidion a Chig Oen AHDB a Chadeirydd cyfredol y Grŵp Ymgynghorol Twbercwlosis yn Lloegr) i drafod yr heriau parhaus i'r diwydiant.

24 Medi 2019 - Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o Fwrdd Rhaglen Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

6 – 8 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd yn Ffair Fasnach Angua lle bu'n cyfarfod ag allforwyr.

10 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod o Grŵp Prif Weinidog Cymru ynghylch Ymadael â'r UE.

14 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Rheolwr Cyfathrebu mewn cyfarfod o Gyngor Cymreig NFU Cymru lle trafodwyd Brexit a phrisiau gostyngol cig eidion.

16 Hydref 2019 – Telegynhadledd o Bwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu HCC.

17 Hydref 2019 – Telegynhadledd ddiweddaru Bwrdd HCC

22 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod i'r diwydiant ar fferm Greg Pickstock. Bu trafodaeth ynghylch yr hyn sydd ei angen i ddatrys problemau cyfredol y diwydiant a sicrhau dyfodol cynaliadwy i gig eidion.

24 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn telegynhadledd o Bwyllgor Ymgynghorol yr UE.

25 a 26 Hydref 2019 – Bu'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn cynrychioli HCC yng nghynhadledd flynyddol AIMS.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

11d **<u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2019 / 2020</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad am yr Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI cyfredol gan Sam Crutchley.

Nodwyd bod yr ymgyrch, oddi ar fis Ebrill 2018, wedi newid i fod yn weithgaredd gydol y flwyddyn a'i bod yn canolbwyntio ar ddulliau digidol er mwyn ceisio cael gwell ymgysylltiad â'r brand a gallu olrhain perfformiad yn well yn yr hirdymor. Roedd y canlyniadau cynnar wedi dangos fod y strategaeth hon yn llwyddo i gyrraedd y nod heb orfod gwario mwy o arian.

Cafodd ymgyrch 2019 / 2020 ei rhannu'n bedair prif elfen, a rhoddwyd manylion am y rhain yn y cyflwyniad: -

1. Gydol y flwyddyn – Gweithgaredd Sylfaenol (Ebrill 2019 / Mawrth 2020)
2. Ffrydiad 1 – Cwpan Rygbi'r Byd (Medi / Hydref 2019)
3. Ffrydiad 2 – Cyfnod y Nadolig (Tachwedd / Rhagfyr 2019)
4. Ffrydiad 3 – Pencampwriaeth y Chwe Gwlad (Chwefror / Mawrth 2020)

Cafodd y canlyniadau cadarnhaol o'r weithgaredd eu croesawu gan y Bwrdd. Cytunwyd y dylid rhannu'r canlyniadau cychwynnol ar gyfer pob gweithgaredd â'r Bwrdd wrth symud ymlaen.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2019 (HCC 905)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **<u>Y diweddaraf am Brexit – I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE</u>**

Nid oedd diweddariad i'w roi.

7. **<u>I ystyried yr adolygiad 6-mis o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2019 / 2020 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ebrill – Medi 2019 (HCC 906)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn erbyn targedau (pan oedd yn briodol i fesur) yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2019 / 2020.

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r gweithgaredd a darpariaeth yn barhaus a châi'r cyfan ei fesur yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd HCC ar hyn o bryd yn debygol o gyrraedd y nod ac nid oedd unrhyw bryderon i'w nodi.

Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r sefyllfa ar hyn o bryd.

8. **<u>I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill ar gyfer 2020 / 2021 (HCC 907)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Argymhellodd y Weithrediaeth i'r Bwrdd y byddai'n briodol, o ystyried yr ansicrwydd o hyd ynghylch Brexit ac ailwladoli'r Ardoll a chymorth ariannol o ffynonellau eraill megis y Rhaglen Datblygu Cig Coch, i gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ddal yr un fath ar gyfer 2020 / 2021 fel a ganlyn: -

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2020 / 2021** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm a dalwyd gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm a dalwyd gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **MOCH** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

Ar gyfer

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2020 / 2021** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad.

Y camau nesaf: Câi argymhelliad y Bwrdd ei gyflwyno i'r Gweinidog er mwyn pennu Ardoll Cig Coch Cymru.

9. **<u>I gael diweddariad ynghylch y broses gynllunio ar gyfer Cynllun Corfforaethol HCC 2020 / 2023 a Chynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021</u>**

Dywedodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch fod y naill ddogfen a'r llall yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

Yn unol â Gweledigaeth 2025, dylai'r Cynllun Corfforaethol nodi'r meysydd allweddol o waith sy'n cael eu blaenoriaethu gan y Bwrdd er mwyn gwneud defnydd effeithiol o arian Ardoll Cig Coch Cymru yn ystod y tair blynedd 2019 / 2022.

Argymhellodd y Weithrediaeth y dylai Cynllun Corfforaethol 2019 / 2022 fod yn seiliedig ar Gynllun Corfforaethol 2018 / 2021.

Argymhellodd y Weithrediaeth y dylai Cynllun Corfforaethol 2020 / 2023, yn amodol ar ddiwygiadau cyllidebol, fod yn seiliedig ar fersiwn 2019 / 2022 a byddai'r Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2020 / 2021 yn amlinellu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, nodwyd y gallai fod yn ofynnol i ailymweld â'r Cynlluniau, gan ddibynnu ar y trafodaethau Brexit sy'n parhau. Câi'r Bwrdd ei hysbysu gan y Weithrediaeth drwy'r amser.

Cafodd yr amserlen gynllunio ganlynol ei chynnig a'i chymeradwyo gan y Bwrdd: -

**Dyddiad**

| | |
|---|---|
| 16 Ionawr 2020 | Cyflwyno’r drafftiau cyntaf i’r Bwrdd |
| 5 Mawrth 2020 | Cyflwyno’r drafftiau diwygiedig i’r Bwrdd i'w cymeradwyo |
| | Anfon cynlluniau at y Gweinidog i gael eu cymeradwyo |
| 1 Ebrill 2020 | Cyflwyno cynlluniau<br>(Cyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar wefan HCC) |

10. **Trafodaeth am gyfathrebu â defnyddwyr ynghylch cynaliadwyedd Cig Coch Cymru**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr gynnig ar gyfer yr uchod

*Amcan*

Amcan yr ymgyrch fyddai targedu defnyddwyr ar draws Cymru a Lloegr gyda negesau cadarnhaol am gynaliadwyedd cig coch o Gymru a chanolbwyntio ar Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

*Strategaeth*

Câi amrediad o ddeunyddiau creadigol sy’n bodoli eu diwygio a’u cryfhau er mwyn gwella’r negesau.

Câi cymysgedd o hysbysebu traddodiadol a digidol ei ddatblygu a’i anelu at ddefnyddwyr, ynghyd â chydweithio ehangach â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth ar draws y diwydiant.

Byddai’r dulliau o hysbysebu yn cynnwys, teledu, radio, cyfryngau digidol a’r wasg.

*Amserlen a chyllideb*

Argymhellwyd y dylid cyhoeddi’r ymgyrch yng Nghynhadledd Flynyddol HCC ar 14 Tachwedd 2019. Byddai’r ymgyrch yn rhedeg o fis Rhagfyr 2019 hyd at fis Mawrth 2020.

Roedd y Weithrediaeth yn bwriadu neilltuo cyllideb o £200,000 ar gyfer yr ymgyrch, gan ddefnyddio arian o gronfa wrth-law HCC a pheth o’r costau cyffredinol yn y Cronfa Glustnod.

Cafodd yr argymhelliad ei groesawu gan y Bwrdd.  Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd yn unfrydol y dylai’r Weithrediaeth fwrw ymlaen â’r ymgyrch.

11. **Adroddiadau HCC**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 908)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen gan HCC ynghylch Mapio Cynaliadwyedd Cig Coch. Rhoddid diweddariad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2020.

b. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 909)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. <u>Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2019 (HCC 910)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. <u>I gael briff ar Gynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 14 Tachwedd 2019</u>

Cyflwynwyd rhaglen ddrafft ar gyfer y gynhadledd a chafwyd crynodeb gan y Rheolwr Cyfathrebu:

Thema'r gynhadledd eleni oedd "Y Ffordd Gymreig – y llwybr at gadwyn gyflenwi gynaliadwy".

Byddai'r gynhadledd yn dechrau am 3.30pm a byddai'n cynnwys y canlynol, ynghyd â sesiynau Holi ac Ateb dan arweiniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:-

- Anerchiad gan Ysgrifennydd y Cabinet
- "Rhagolygon y Farchnad ar gyfer Cig Eidion" - James Ruggeri a Rhys Llywelyn (HCC)
- Sesiwn "Holi'r Bwrdd" ar gyfer talwyr Ardoll
- "Cig Coch a Braster: y ddadl gyhoeddus a'r wyddor faethol" – Dr Zoe Harcombe
- "Lle Cig Coch mewn tirwedd sy'n newid: Mân-werthu yn y DG, bwyta y tu allan i'r cartref a masnach fyd-eang" – Arglwydd Mark Price, Cyn-weinidog Masnach a Chyn-reolwr-gyfarwyddwr Waitrose
- "Gwneud y mwyaf o'n hadnoddau: partneriaethau manwerth, hyrwyddiadau digidol a datblygu marchnadoedd newydd" – Rhys Llywelyn (HCC)
- "Y Ffordd Gymreig: Negesau amgylcheddol allweddol HCC" – Owen Roberts (HCC)
- "Adeiladu ar gyfer y dyfodol: Y Rhaglen Datblygu Cig Coch" – John Richards (HCC).

Byddai'r gynhadledd yn cau am tua 7pm gyda lluniaeth a chyfle i rwydweithio

Cynhelid sesiwn briffio i'r Bwrdd am 3pm.

e. Digwyddiadau i ddod i gynnwys diweddariad am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 25 a 26 Tachwedd 2019 (HCC 911)

Cymerwyd bod y papur digwyddiadau i ddod wedi'i ddarllen.

*Y Ffair Aeaf – Dydd Llun 25 a Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2019*

Bu'r Rheolwr Cyfathrebu yn crynhoi presenoldeb a gweithgaredd HCC yn y Ffair Aeaf eleni.

Byddai brecwast blynyddol HCC i'r diwydiant yn cael ei gynnal am 8am ddydd Llun 25 Tachwedd 2019 yn Hafod a Hendre, a byddai'r Gweinidog yn bresennol.

Câi papur briffio llawn ei rannu â'r Bwrdd cyn y Ffair Aeaf.

12. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

a. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2019 (HCC 912)

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata***

b. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Hydref 2019

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

c. I gael adroddiad llafar a derbyn y cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Hydref 2019 (HCC 913)

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Hydref 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)***

d. I gael adroddiad llafar a derbyn y cofnodion o gyfarfod *y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)* a gynhaliwyd ddydd Mercher 23 Hydref 2019 (HCC 914)

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 23 Hydref 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***Grŵp HCC ar gyfer Ymgysylltu â'r Diwydiant (ILG)***

e. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Grŵp Ymgysylltu â'r Diwydiant (ILG) a gynhaliwyd ddydd Mawrth 15 Hydref 2019.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y grŵp diwydiant wedi cyfarfod i roi cyfle i randdeiliaid drafod a chyfrannu at ddrafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2020 / 2023.

Cafwyd trafodaeth ar y pynciau a ganlyn: -

- Gwella Oes Silff
- Gwella cyfleoedd ar gyfer cynhyrchion 5^ed^ Chwarter
- Cynnal màs critigol Da Byw yng Nghymru
- Ansicrwydd Brexit
- Uniondeb brand trwy raglen Oritain
- Mynd i'r afael â'r wasg wrth-gig (dolenni i ddiet a'r amgylchedd)

13. **Unrhyw fater arall**

*Adolygiad o Fanyleb Cig Eidion Cymru PGI*

Nodwyd y byddai'r Weithrediaeth, yn dilyn ceisiadau gan y diwydiant, yn adolygu Manylebau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Gwnaed yr adolygiad blaenorol yn ystod 2018.

Cai'r Bwrdd ei ddiweddaru drwy'r amser am y datblygiadau.

14. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 16 Ionawr 2020
Diweddariad am delegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 6 Chwefror 2020 am 9.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**